Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap Samplu'r**

**Panel Craffu**

**Troseddau Casineb / menywod / anghymesuredd**

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Hydref 2023**

## Cynnwys

## 1. Trosolwg

**Ar 10 Hydref 2023, daeth yr Aelodau i gyfarfod Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys. Adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion Troseddau Casineb / menywod ac anghymesuredd a gyflawnwyd gan bobl ifainc ac oedolion, yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 17 achos, gydag 8 yn cynnwys drwgdybiedigion ifainc a 9 yn cynnwys oedolion.**

**Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen Microsoft Teams.**

## 1. Cefndir, diben a methodoleg

**Gyda'i gilydd, mae Aelodau'r Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna bydd y Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosibl, dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwaredu. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

**•Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.**

**•Cydymffurfio â pholisi'r heddlu.**

**•Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.**

**•Effaith bosibl ar y gymuned.**

**•Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.**

**•Dewisiadau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael.**

**Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:**

**•Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.**

**•Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel.**

**•Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.**

**•Panel yn methu â dod i gasgliad.**

## 1. Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

**Rydw i _David Evans______________ (eich enw mewn print bras) yn gallu cadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu dyddiedig 10 Hydref 2023.**

**Llofnod: _ David Evans ____________**

**Dyddiad: _07.02.2024 __________**

## 1. Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y panel

**O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:**

- **Cymerwyd cam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf i atgoffa Swyddogion am y broses gywir ar gyfer cyhoeddi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys ar gyfer Oedolyn drwy ddilyn y matrics difrifoldeb dwy haen ar gyfer Oedolion. Cadarnhaodd y Prif Arolygydd Jacqui Lovatt bod hyn wedi'i gyfathrebu ar draws yr Heddlu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.**
- **Cymerwyd cam yn y cyfarfod diwethaf ar gyfer ail-anfon y matrics difrifoldeb Oedolion at holl aelodau'r panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. Cwblhawyd hyn ar 25 Gorffennaf 2023.**
- **Cymerwyd cam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf i Uwch Swyddog fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, ac os nad yw'r swyddog dynodedig ar gael, yna dylai cynrychiolydd fynychu. Dywedodd y Prif Arolygydd Jacqui Lovatt y byddai'r Prif Arolygydd Dros Dro Matthew Price yn cymryd ei lle hi fel yr Uwch Swyddog ar gyfer y panel.**

## 5.0 Meysydd y mae angen eu gwella

**Nodwyd y maes canlynol i'w wella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Nodwyd bod rhai achosion a dderbyniwyd yn anghyflawn. Pwysleisiodd yr aelodau Panel yr angen i dderbyn ffeiliau achos wedi'u cwblhau. Nodwyd y gallai hyn fod wedi'i achosi gan weithrediad NICHE o fewn yr Heddlu.**
- **Pwysleisiodd aelodau Panel bwysigrwydd derbyn pob adroddiad asesiad Swyddfa a chanlyniadau Swyddfa gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid ledled ardal Dyfed-Powys.**

## 6.0 Ystyriaeth o Droseddau Casineb/ menywod ac anghymesuredd – achosion oedolion

**Ystyriwyd naw achos oedolion o Droseddau Casineb/menywod ac anghymesuredd.**

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
| --- | --- |
| **Priodol** | **5** |
| **Priodol gydag amheuon** | **1** |
| **Amhriodol** | **2** |
| **Methu â dod i ganlyniad** | **1** |

**Manylir ar sylwadau Aelodau'r Panel isod.**

**Achos 1**

**Cydnabu'r Panel natur yr achos gan nodi nad oedd angen unrhyw gamau pellach. Mynegodd y Panel eu cytundeb â'r defnydd o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys, gan nodi ei fod yn ddefnydd priodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Cydnabu'r Panel statws 'dim troseddau blaenorol' y troseddwr a natur y digwyddiad. Roedd holl aelodau'r Panel yn gytûn fod hyn yn ddefnydd priodol o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

**Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi'i nodi fel ymchwiliad sy'n parhau ac nad oedd pob ffeil achos ar gael. Gan hynny, nododd y Panel y byddai'n amhriodol ystyried yr achos hwn.**

**Asesiad y Panel: Methu â dod i ganlyniad**

**Achos 4**

**Cytunodd y Panel bod y rhybudd a gyhoeddwyd yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan nad oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol ac nid oedd y digwyddiad yn ddifrifol iawn.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

**Nododd y Panel y camau cadarnhaol a gymerwyd gan yr Heddlu gan fod y digwyddiad wedi'i drin yn sensitif a phriodol. Nododd y Panel y cyngor diogelwch a roddwyd i'r partïon a anafwyd, gan fynegi positifrwydd cymryd y cam gweithredu hwn. Nododd y Panel yr euogfarnau blaenorol a oedd yn ymwneud ag alcohol a oedd yn gysylltiedig â'r troseddwr a'i statws fel 'meddwyn y dref' a chwestiynodd pa un ai a fyddai gwrandawiad llys yn fwy addas oherwydd hanes y troseddwr. Mynegwyd amheuon mewn perthynas â'r anawsterau o ran dwyn yr achos i'r llys. Cytunwyd fod y Gwarediad y Tu Allan i'r Llys yn briodol ond gyda'r amheuon.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 6**

**Nododd y Panel fod y partïon a anafwyd ddim eisiau dilyn y digwyddiad hwn ymhellach. Holodd y Panel pa un ai a oedd hyn yn ymwneud â'u gwaith fel gweithwyr diogelwch, ac felly nid ydynt yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr. Cydnabu'r Panel nad oedd gan y troseddwyr hanes blaenorol, gan ystyried bod y Gwarediad y Tu Allan i'r Llys yn briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

**Cydnabu'r Panel mai troseddwr mynych â throseddau blaenorol yn erbyn y parti a anafwyd oedd hwn. Mynegodd y Panel bryderon nad oedd y troseddwr wedi dysgu o'r gwarediadau y tu allan i'r llys blaenorol a gyhoeddwyd oherwydd ei hanes o aildroseddu. Cytunodd y Panel fod yr achos hwn yn arddangos defnydd amhriodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 8**

**Nododd y Panel fethiant y Troseddwr i gydymffurfio â'r gorchymyn cymunedol a'r tor gorchymyn llys. Nododd y Panel eu pryderon am y troseddwyr oherwydd difrifoldeb y digwyddiadau. Cododd y Panel gwestiynau ac fe wnaethant nodi nad oedd y ffeiliau'n darparu digon o wybodaeth. Cytunwyd fod hyn yn ddefnydd amhriodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 9**

**Nododd yr aelodau Panel eu pryderon am les y Troseddwr oherwydd ei oed a'r ffaith nad oedd ganddo unrhyw euogfarnau blaenorol. Holodd y Panel pa un ai a oedd gan y troseddwr unrhyw anghenion ychwanegol a allai fod wedi arwain ato'n cyflawni'r**

**drosedd hon. Cydnabu'r Panel nad oedd y parti a anafwyd yn cefnogi erlyniad, felly cytunwyd bod hyn yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.0 Ystyriaeth o Droseddau Casineb/ menywod ac anghymesuredd – achosion Ieuenctid

**Adolygodd aelodau'r Panel wyth achos.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Methu â dod i ganlyniad | 2 |

**Achos 1**

**Cydnabu'r Panel nad oedd gan y troseddwr hanes blaenorol mewn cysylltiad â'r troseddwr. Fe wnaethant gwestiynu p'un a chafodd yr unigolion eu cyfeirio at Dîm Troseddau Ieuenctid o ystyried mai gwarediad stryd a gyhoeddwyd. Yn gyffredinol, roedd y Panel yn fodlon â'r achos ac yn ystyried ei fod yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Cytunwyd nad oedd y Panel yn medru dod i ganlyniad o ran achos 2 gan nad oedd y ffeil achos yn gyflawn. Nododd y Panel bwysigrwydd dim ond derbyn ffeiliau achos llawn ar gyfer achosion a oedd wedi dod i ben gan y byddai'n amhriodol eu hadolygu fel arall.**

**Asesiad y Panel: Methu â dod i ganlyniad**

**Achos 3**

**Cytunwyd nad oedd y Panel yn medru dod i ganlyniad ynghylch achos 3 gan fod y ffeil achos yn anghyflawn. Nododd y Panel bwysigrwydd dim ond derbyn ffeiliau achos llawn ar gyfer achosion a oedd wedi dod i ben gan y byddai'n amhriodol eu hadolygu fel arall.**

**Asesiad y Panel: Methu â dod i ganlyniad**

**Achos 4**

**Nododd y Panel ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth posibl y troseddwr o'r term a ddefnyddiwyd, gan nodi'r cyngor priodol ar gyfer oed a roddwyd. Cydnabu fod llythyr o ymddiheuriad hefyd wedi'i gyflwyno. Penderfynodd y Panel fod hwn yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

**Fel yn achos 4, holodd y Panel am ddealltwriaeth y troseddwr o'r term a ddefnyddiwyd a'i ddifrifoldeb. Cydnabu'r matrics sgôr difrifoldeb a oedd wedi'i gynnwys o fewn yr achos a phenderfynwyd bod hwn yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

**Holodd y Panel pa un ai a gafodd yr achos ei gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid, gan nodi absenoldeb yr asesiad swyddfa gan Dîm Troseddau Ieuenctid Powys. Cafwyd trafodaeth ynghylch defnydd yr Heddlu o'r Tîm Troseddau Ieuenctid a phwysleisiwyd bod angen i Swyddogion Heddlu gofio cysylltu â'u cysylltiadau Tîm Troseddau Ieuenctid am unrhyw gyngor. Cytunodd y Panel fod hwn yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys gan nad oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol ond roedd angen addysg bellach y gellid cael mynediad ati drwy'r gwarediad y tu allan i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

**Canmolodd y Panel yr asesiad swyddfa manwl a'r cynllun a ddarparwyd gan Dîm Troseddau Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ac fe'i nodwyd fel enghraifft o arfer gorau.**

**Nododd y Panel y gallai fod gan y troseddwr anghenion ychwanegol ac mai hwn oedd ei drosedd cyntaf, felly roedd y gwarediad y tu allan i'r llys yn ddefnydd priodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 8**

**Nododd y Panel mai trosedd casineb lefel is oedd hwn ac nad oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol. Holodd y Panel am gysylltiad yr ysgol gan gwestiynu pam na chyhoeddwyd cynllun diogelu. Mynegodd y Panel bryderon hefyd ynglŷn â'r defnydd o Rybudd Ieuenctid. Ystyriodd y Panel fod hwn yn ddefnydd priodol o'r gwarediad y tu allan i'r llys. Cafwyd trafodaeth ynghylch y diffyg adroddiadau Tîm Troseddau Ieuenctid a ddarparwyd a phwysleisiodd y Panel eu pwysigrwydd. Awgrymwyd hefyd y gallai rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid Powys fod eisiau mynychu'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai gwahoddiad yn cael ei rannu. Gofynnodd y Panel hefyd am i achosion gael eu darparu'n gyfartal o Bowys a Dyfed er cysondeb.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 8.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

**Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion Troseddau Casineb/menywod ac anghymesuredd a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:**





**Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredidau, fel y dangosir yn y graff isod.**


**O'r 589 o achosion a archwiliwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2023, aseswyd bod 58.5% yn briodol, 20% yn amhriodol ac 18.8% yn briodol gydag amheuon. Methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2.5% o achosion.**

**Mae'r newid mewn casgliadau a gyrhaeddwyd dros amser i'w weld yn y graff isod:**

**Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2023.**



**Mae'r graff canlynol yn dangos nifer wirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel dilynol yn eu cyfarfodydd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2023.**



## 9.0 Ethnigrwydd a Rhyw

**Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran eu rhyw:**

**Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.**

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunanasesiad y Drwgdybyn | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 0 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 14 |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Anhysbys | 8 | 3 |
| Du Prydeinig | 0 | 0 |
| | | |

**Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.**

## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel yr hoffent ganolbwyntio ar Droseddau Gwledig yn y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2024.**

**Cam Gweithredu 1: Atgoffa Swyddogion Heddlu am eu cysylltiadau Tîm Troseddau Ieuenctid a phwysigrwydd cysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau.**

**Cam Gweithredu 2:  Adroddiadau i'w darparu gan yr holl Dimoedd Troseddau Ieuenctid perthnasol.**

## Cam Gweithredu 3:  Gwahodd Tîm Troseddau Ieuenctid Powys i'r cyfarfod Panel nesaf.

## Cam Gweithredu 4: Darparu nifer cyfartal o achosion Powys a Dyfed yng nghyfarfod nesaf y Panel.